



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner



# Safonau Llunio Polisi: Creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

## Dogfen gyngor arferion da

---

Mae dogfennau cyngor arferion da'r Comisiynydd yn cynnig syniadau a chyngor ymarferol ynghylch sut i fynd ati i gydymffurfio â dyletswyddau iaith statudol, a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r dogfennau cyngor yn cyfeirio at ofynion dyletswyddau iaith statudol penodol, serch hynny noder:

- o Gall cyrff nad ydynt dan ddyletswydd i weithredu'r dyletswyddau penodol y cyfeirir atynt yn y ddogfen fynd ati i gymhwyso'r egwyddorion a'r enghreifftiau i'w sefyllfa a'u penderfyniadau hwy;
- o Nid yw'r dogfennau cyngor yn rhwymo cyrff yn gyfreithiol. Rhaid i gyrff ddibynnu ar eu cyngor cyfreithiol eu hunain wrth ddehongli a gweithredu dyletswyddau iaith.

Nid yw'r dogfennau cyngor yn godau ymarfer safonau sydd wedi eu dyroddi dan adran 68 Mesur y Gymraeg, felly nid yw'n ofynnol cyfeirio at y dogfennau cyngor wrth ystyried dehongliad safonau'r Gymraeg. Mae [codau ymarfer y Comisiynydd](#) ar gyfer rheoliadau safonau'r Gymraeg i'w gweld ar y wefan (gweler adran 1 y codau ymarfer ynghylch statws cyfreithiol y codau).

---

## Cynnwys

---

1	Cefndir	2
2	Cyd-destun cyfreithiol	4
3	Beth yw ystyr ‘penderfyniad polisi’?	5
4	Pryd ddylai corff ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae’n eu gwneud ar y Gymraeg?	8
5	Ystyried gofynion y safonau llunio polisi yn gyfochrog â gofynion eraill	11
6	Pwy ddylai ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae corff yn eu gwneud ar y Gymraeg?	16
7	Methodoleg ar gyfer ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg	18
8	Dogfennau ymgynghori	25
9	Cadw cofnod ynghylch penderfyniadau polisi	29
10	<b>Atodiad 1:</b> safonau perthnasol	30
11	<b>Atodiad 2:</b> dehongliadau’r setiau gwahanol o Reoliadau Safonau’r Gymraeg o ‘benderfyniad polisi’	32
12	<b>Atodiad 3:</b> Ffynonellau data iaith Gymraeg	34
13	<b>Atodiad 4:</b> Adolygiad barnwrol i benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd: crynodeb o’r pwyntiau allweddol sy’n deillio o ddyfarniad 24 Mehefin 2020 yr Anrhydeddus Mr Ustus Fraser	36

---

# Rhestr wirio

Mae'r syniadau a'r arferion yn y cyngor yn cael eu crynhoi yn y rhestr wirio hon. Cofiwch fod rhai o'r pwyntiau isod yn ofynion yn y safonau, ac eraill yn arferion da.

Cam	Ar waith?
Llunio teclyn cynhwysfawr i ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg	
Sicrhau bod modd monitro gweithrediad a chydymffurfiaeth proses o ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg	
Swyddogion ac uwch swyddogion yn meddu ar ymwybyddiaeth dda o sefyllfa'r Gymraeg o safbwynt cyfreithiol, cymunedol ac yn lleol	
Swyddogion sy'n gyfrifol am y Gymraeg yn gallu cynnig arweiniad a chyngor pan fo angen	
Data a thystiolaeth gadarn yn sail i'r asesiad gyda swyddogion yn ymwybodol o ffynonellau perthnasol (ac yn gallu cael gafael arnynt yn hawdd) ac yn gallu eu dehongli a deall eu harwyddocâd a'u gosod mewn cyd-destun lleol	
Sicrhau y caiff barn, profiad neu arbenigedd rhanddeiliaid perthnasol eu cynnwys fel rhan o unrhyw dystiolaeth	
Sicrhau bod craffu mewnol yn digwydd yn ystod y broses gyda phwyntiau rheoli cyson yn herio (e.e. pencampwyr y Gymraeg ar lefel uwch; aelodau â phortffolio; pwyllgorau craffu; adrannau'r gyfraith)	
Cofnod canolog yn cael ei gadw o'r holl asesiadau effaith a bydd mynediad ato er mwyn sicrhau gorolwg corfforaethol	
Rhaglen graffu ffurfiol (gan gynnwys gwahodd craffu allanol) i edrych yn benodol ar ganlyniadau asesiadau effaith ar y Gymraeg	

## 1 Cefndir

### **Hanfod proses ystyried effeithiau penderfyniadau polisi yn y cyngor hwn yw creu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- 1.1 Mae ystyried effeithiau penderfyniadau polisi yn galluogi'r corff i atal neu liniaru unrhyw agweddau negyddol drwy addasu neu ddileu'r agweddau penodol hynny ar gam cynnar yn y broses o ddatblygu polisi.
- 1.2 Gall ystyried effeithiau penderfyniadau polisi amlygu effaith bositif a fyddai'n galluogi'r corff i gynyddu'r effaith bositif honno yn sgil yr asesiad. Gall effeithiau fod yn rhai uniongyrchol neu anuniongyrchol a dim ond drwy drefn drylwyr o asesiad effaith y mae modd eu rhagweld. Wrth ystyried effeithiau penderfyniadau polisi, yr arfer presennol ar lawr gwlad sydd yn bwysig.
- 1.3 Mae sicrhau bod gan gorff ddull effeithiol i ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yn fodd o'i alluogi i greu 'trywydd archwilio' cadarn i gwmpasu ystyriaethau cyfreithiol, anghenion siaradwyr Cymraeg, strategaethau cenedlaethol a lleol, a meysydd polisi penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg.

### **Canfyddiadau gwaith monitro Comisiynydd y Gymraeg**

- 1.4 Mae'r Comisiynydd wedi monitro perfformiad ac arferion cyrff cyhoeddus sy'n destun i'r safonau llunio polisi, ac wedi canfod y canlynol:
  - o anghysondeb yn y modd y mae cyrff yn ystyried effeithiau penderfyniadau polisi a wneir ar y Gymraeg a bod y prosesau sydd ar waith yn annigonol
  - o yr angen i gyrff ystyried yr holl ffactorau perthnasol yng nghyswllt y Gymraeg wrth ddatblygu polisi. Er bod cryfderau ac enghreifftiau o arferion effeithiol i'w gweld, yn aml, mae'r cryfderau hynny yn cael eu gwanhau oherwydd bod gwendidau mewn agweddau eraill
  - o ceir risg i sicrwydd penderfyniadau polisi o ran diffyg:
    - o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar ddechrau'r broses
    - o ymwneud ffurfiol y swyddog iaith â'r broses
    - o hyfforddiant manwl a phenodol
    - o canllawiau neu gyngor manwl i dywys swyddogion drwy'r broses a diffyg canllawiau neu gyngor manwl i gyfarwyddwyr neu benaethiaid sef y rheini sy'n gyfrifol yn y pen draw am benderfyniadau'r corff
    - o trylwyredd o ran y cwestiynau sy'n cael eu gofyn a'u hateb wrth ddilyn y broses
    - o cyflawnder y broses o ddechrau'r cyfnod o baratoi at wneud penderfyniad polisi i'r diwedd

- trefniadau ffurfiol (neu anffurfiol) i fonitro a gwerthuso traweffaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.
  - yn olaf, mae rhai cyrff wedi mabwysiadu arferion gwallus drwy gynnwys y Gymraeg fel nodwedd warchoddedig mewn asesiadau effaith cydraddoldeb a thrwy wneud hynny, methu sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r gofynion statudol sy'n codi o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011<sup>1</sup> (Mesur y Gymraeg) wrth wneud penderfyniadau polisi.
- 1.5 Felly, mae'n bwysig fod gweithdrefnau sy'n galluogi cyrff i ystyried effaith penderfyniadau polisi yn elfennau parhaus o fewn proses o lunio polisi. Mae'n parhau trwy ymgynghoriadau cyhoeddus a chynhyrchu drafftiau i weithredu'r polisi dan sylw a'r adolygiad o berfformiad y polisi hwnnw maes o law. Ar ben hynny, mae'r broses i fod i ailddechrau pan ddaw heriau polisi newydd a darnau newydd o dystiolaeth newydd i'r amlwg.

---

<sup>1</sup> [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

## 2 Cyd-destun cyfreithiol

### Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- 2.1 Mae Mesur y Gymraeg yn gwneud darpariaeth ynglŷn â hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac ynglŷn â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae Mesur y Gymraeg hefyd yn gwneud darpariaeth ynglŷn â safonau'n ymwneud â'r Gymraeg.

#### Safonau llunio polisi

- 2.2 Yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg, ystyr 'safon llunio polisi' yw safon sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi ac y bwriedir iddi sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, un neu ragor o'r canlyniadau canlynol:
- bod y person sy'n gwneud penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl, (a p'un ai yw'r effeithiau'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael—
    - ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
  - bod y person sy'n gwneud penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif—
    - ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
  - bod y person sy'n gwneud penderfyniad polisi yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad fel nad yw'r penderfyniad yn cael effeithiau andwyol, neu fel bod y penderfyniad yn cael effeithiau llai andwyol—
    - ar gyfleoedd i bersonau eraill i ddefnyddio'r Gymraeg, neu
    - ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

#### Safonau cadw cofnodion

- 2.3 Yng nghyd-destun Mesur y Gymraeg, ystyr “safon cadw cofnodion” yw safon sy'n ymwneud â chadw –
- a) cofnodion sy'n ymwneud â safonau penodedig eraill, a
  - b) cofnodion sy'n ymwneud –
    - i. â chwynion am gydymffurfedd person â safonau penodedig eraill, neu
    - ii. â chwynion eraill sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- 2.4 Mae safonau'r Gymraeg yn golygu bod rhaid i gorff gadw cofnod o'r camau y mae wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

### 3 Beth yw ystyr 'penderfyniad polisi'?

- 3.1 Mae adran 29(6) Mesur y Gymraeg<sup>2</sup> yn nodi mai ystyr 'penderfyniad polisi' yw penderfyniad gan berson ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau neu ynglŷn â chynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall.
- 3.2 Cafodd diffiniad cyffredinol y Mesur o 'benderfyniad polisi' ei gymhwyso'n briodol i sefyllfa cyrff gwahanol. Gwnaed hynny drwy reoliadau a cheir y manylion yn Atodiad 2.
- 3.3 Cyfrifoldeb y corff yw bodloni ei hun ei fod yn defnyddio'r cyngor hwn ochr yn ochr â'r ddyletswydd fel y'i cymhwyswyd mewn rheoliadau, ac yn unol â gofynion pellach mewn cod ymarfer. Mae hyn oherwydd gall fod rhai cyfeiriadau yn y cyngor hwn sy'n mynd tu hwnt i'r ddyletswydd sydd ar rai cyrff mewn rhai amgylchiadau.
- 3.4 Mae llawer o gyrff cyhoeddus yn diffinio'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn "bolisi" ac yn "arfer" yn wahanol.
- 3.5 Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd o'r farn bod 'polisi' yn ymwneud yn fras â datganiad / dogfen ffurfiol ysgrifenedig sy'n delio â nodau, cyfeiriad, syniadau, cynllun neu ganllaw ar sut y bydd corff yn gweithredu mewn sefyllfa benodol.
- 3.6 Wedyn mae'r Comisiynydd o'r farn bod 'arfer' yn ymwneud yn fras â phenderfyniadau gweithredol corff sy'n llywodraethu ei weithredoedd o ddydd i ddydd, ac fe'u gwneir o fewn terfynau neu ganiatâd penderfyniadau polisi. Mae penderfyniadau gweithrediadau yn rhoi penderfyniadau polisi ar waith.

#### **Astudiaeth achos: polisi neu arfer?**

Os yw Cyngor Sir yn ymgynghori ar gynyddu pris cludiant ysgol neu'n symud o ddarparu cludiant am ddim i sefyllfa o godi tâl am y gwasanaeth hwnnw, **penderfyniad polisi** yw hwn. Mae'r Cyngor yn gwneud penderfyniad ynghylch arfer ei swyddogaeth i ddarparu trafndiaeth ac o bosibl yn addasu'r polisi trwy gynyddu'r taliadau amdano (neu gychwyn taliadau newydd). Ym marn y Comisiynydd, mae'r ffaith bod y penderfyniad yn destun ymgynghoriad, a bod barn rhanddeiliaid â diddordeb yn cael ei cheisio, yn gwneud hyn yn fwy tebygol o fod yn gyfystyr â phenderfyniad polisi gan fod rhwymedigaethau eang ar gyrff cyhoeddus i ymgynghori os ydynt yn ystyried newid mewn polisi.

Os bydd yr awdurdod lleol yn dewis caniatáu i un rhiant dalu mewn rhandaliadau ar ôl gwneud penderfyniad i gynyddu'r taliadau am gludiant ysgol, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i un arall dalu'r costau ymlaen llaw, byddai hyn, ym marn y Comisiynydd, yn gyfystyr â **penderfyniad gweithredol**; h.y. arfer sy'n gweithredu'r polisi. Ni fyddai'r arfer hwn yn cael ei ddal gan y diffiniad o benderfyniad polisi.

---

<sup>2</sup> [Adran 29 Mesur y Gymraeg \(Safonau llunio polisi\)](#)



- 3.7 Gall penderfyniadau polisi gynnwys penderfyniadau o fewn y categorïau canlynol, ond nid ydynt wedi eu cyfyngu i hynny (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

**Cynnwys deddfwriaeth:**

- e.e. Gweinidogion Cymru yn cyflwyno Bil ar gyfer trafodaeth a chraffu pellach yn y Senedd

**Arfer pwerau statudol:**

- e.e. trefniadau gorfodi (e.e. os oes gan y corff bwerau rheoleiddiol)

**Cynnwys datganiadau polisi:**

- e.e. enwi strydoedd neu eiddo

**Strategaethau neu gynlluniau strategol:**

- e.e. cynllun strategol y Gymraeg mewn addysg
- cynllun datblygu lleol
- strategaeth dai
- cynllun corfforaethol
- strategaeth ddigidol
- strategaeth hybu'r Gymraeg
- strategaethau o natur genedlaethol nad ydynt o reidrwydd yn berthnasol i un ardal yn unig

**Strwythurau mewnol:**

- e.e. gweithdrefnau llywodraethiant
- recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr
- partneriaethau
- lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau
- ailstrwythuro (h.y. staffio)

**Gweithgareddau yr ymgymerir â hwy fel arfer swyddogaeth / cynnal busnes neu ymgymeriad arall:**

- e.e. cynnal digwyddiadau i hysbysebu penderfyniad polisi
- corff dyfarnu yn cyhoeddi grantiau i fusnesau erbyn dyddiad penodol

- 3.8 Dyma rai enghreifftiau pellach o benderfyniadau polisi a fyddai'n ddarostyngedig i'r safonau llunio polisi:

- awdurdod lleol yn penderfynu arfer ei hawl statudol i newid taliadau am wasanaeth penodol;

- o datganiad gan wasanaeth heddlu ynghylch recriwtio gweithlu mwy amrywiol i adlewyrchu'r gymuned leol y mae'n ei gwasanaethu;
- o penderfyniad bwrdd iechyd ar eiriad terfynol ei gynllun strategol;
- o cynhyrchiad darparwr addysg bellach o strwythurau staff mewnol;
- o cyhoeddiad tribiwnlys o oriau agor cyfyngedig ar gyfer cyflwyno hawliadau;
- o penderfyniad amgueddfa i godi cyfraddau penodol am fynediad i arddangosfeydd newydd.

### **Astudiaeth achos: Ymchwiliad y Comisiynydd i gynnig i gau ysgol**

Derbyniodd y Comisiynydd ddwy gŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch materion yn ymwneud â chynnig Cyngor Sir i gau ysgol gynradd Gymraeg yn yr ardal. Roedd y gwyn gyntaf yn ymwneud â'r modd y cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ar y cynnig i gau'r ysgol. Roedd yr ail gŵyn yn ymwneud â diffygion honedig yn y modd yr aseswyd effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd yr achwynydd yn honni:

- na wnaeth y Cyngor gynnal ymgynghoriad priodol am nad oedd y dogfennau ymgynghori yn ystyried nac yn ceisio barn ynghylch sut y byddai'r penderfyniad yr ymgynghorwyd arno'n effeithio ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- bod y Cyngor wedi methu ag ymateb yn briodol i sylwadau a gyflwynwyd am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad;
- bod dogfennau'r ymgynghoriad yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg gan fod y gofod a roddwyd ar gyfer cynnwys ymateb i rai cwestiynau yn llai yn y fersiynau Cymraeg o'u cymharu â'r fersiynau Saesneg;
- na chyhoeddwyd yr asesiad ar addysg Gymraeg ar dudalennau Cymraeg y gwefan y Cyngor yn ystod y broses ymgynghori;
- na wnaeth y Cyngor gynnal asesiad priodol o effaith y penderfyniad i gau'r ysgol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yng nghymuned yr ysgol, ac nad yw'r asesiad o'r effaith ar addysg Gymraeg yn cwrdd â gofynion safonau'r Gymraeg sydd wedi eu gosod ar y Cyngor.

Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i sicrhau a bodloni ei hun fod unrhyw benderfyniadau polisi a wneir ganddo (ynghyd â'r broses o'u llunio ac unrhyw ymgynghoriadau arnynt) yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau neu ddeddfau sy'n berthnasol. Bwriad yr ymchwiliad yn yr achos hwn oedd dod i benderfyniad ynglŷn â p'un a oedd y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safonau'r Gymraeg wrth gyrraedd ei benderfyniad. Pan fo penderfyniad polisi eisoes wedi ei wneud, nid yw'n agored i'r Comisiynydd ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor ail wneud y penderfyniad hwnnw.

Felly, mae'r camau y mae'r Comisiynydd wedi gofyn i'r Cyngor eu cymryd yn berthnasol i benderfyniadau a wneir yn y dyfodol yn unig, mewn perthynas â'r broses o ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg, ac ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg wrth ymgynghori ar y penderfyniadau hynny.

## 4 Pryd ddylai corff ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae'n eu gwneud ar y Gymraeg?

- 4.1 Mae'r safonau llunio polisi yn cynnwys gofynion i gorff sicrhau, neu gyfrannu at sicrhau, bod y person sy'n gwneud y penderfyniad polisi yn ystyried pa effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyflawni'r gweithgareddau canlynol:
- wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli
  - wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi o dan ystyriaeth
  - wrth lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau, neu wrth ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli; ac
  - wrth gomisiynu neu wneud gwaith ymchwil y bwriedir i gynorthwyo corff i wneud penderfyniadau polisi.
- 4.2 Mae [Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) y Comisiynydd yn nodi y 'disgwylir i'r weithred o ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg fod yn rhan anhepgor o lunio, adolygu neu addasu polisiâu o'r dechrau. Dylid gwneud hyn cyn i'r penderfyniad polisi terfynol gael ei wneud'.
- 4.3 Yn flaenorol, penderfynodd y Comisiynydd ymchwilio i achos pan ystyriwyd yr effaith ar y Gymraeg ar ôl i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

### **Astudiaeth achos: Ymchwiliad y Comisiynydd i broses Prifysgol yng Nghymru o gyflawni ailstrwythuro arfaethedig i strwythur staffio**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn yn ymwneud ag ailstrwythuro arfaethedig i'r strwythur staffio o fewn Prifysgol Gymreig. Roedd yr achwynydd yn honni nad oedd y Brifysgol wedi cynnal asesiad effaith ieithyddol digonol ar y cynllun ailstrwythuro.

Roedd yr achwynydd yn honni bod y newidiadau arfaethedig yn sylweddol, ac roedd yr achwynydd yn bryderus fod y newidiadau yn mynd yn groes i'r nod o sicrhau statws cydradd i'r iaith o fewn y Brifysgol. Roedd yr achwynydd hefyd o'r farn y gallai rhai o'r cynigion danseilio gwaith da a statws arweiniol y Brifysgol mewn perthynas â'r Gymraeg, ac felly y byddai'n effeithio ar allu'r Brifysgol i ddenu a recriwtio myfyrwyr o Gymru yn y dyfodol. Dywedodd yr achwynydd bod y cynnig yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y broses o lunio'r strategaeth a fyddai'n sail i bolisi.

Er bod y ddogfen dan sylw yn ymwneud ag ailstrwythuro eang ar draws y Brifysgol, roedd yr achwynydd yn bryderus am effaith posib y newidiadau ar y Gymraeg. Mynegodd yr achwynydd bryder am y cynnig i ddiddymu swyddogaeth Dirprwy Is-ganghellor y Gymraeg a Diwylliant Cymru gan nodi bod y cynnig yn beryg o gael effaith ar:

- statws sefydliadol diamwys i'r Gymraeg ar y lefel strategol uchaf
- hunaniaeth ac enw da'r Brifysgol o ran ei darpariaeth cyfrwng Gymraeg a phwysigrwydd y rôl i'r canfyddiad cyhoeddus o ymrwymiad y Brifysgol i'r Gymraeg
- gallu'r Brifysgol i weithredu gofynion statudol safonau'r Gymraeg
- y modd y mae'r Brifysgol wedi chwarae rhan flaenllaw yn ei hymwneud â chyrrff allanol mewn perthynas â chynllunio darpariaeth academiaidd a gweinyddol drwy'r

## Gymraeg.

Yn dilyn ystyried y dystiolaeth, roedd y Comisiynydd yn fodlon bod y Brifysgol wedi cynnal asesiad ystyrllon o effeithiau posib y cynigion ar y Gymraeg ac wedi ystyried camau er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau andwyol. Roedd hefyd o'r farn fod y newidiadau a gynigir yn y cynnig terfynol yn awgrymu bod ystyriaeth briodol wedi ei rhoi i'r sylwadau a'r pryderon a fynegwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

Roedd y Comisiynydd hefyd yn awyddus i ystyried a gafodd y safonau eu gweithredu ar yr amser iawn yn ystod y broses o wneud y penderfyniad. Yn y cyswllt hwn mae'r safonau llunio polisi yn disgwyl i'r Brifysgol ystyried effeithiau ar y Gymraeg wrth lunio polisi newydd neu'n adolygu neu addasu polisi.

Wrth ymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, gwnaeth y Brifysgol ddatgan bod y cynnig yn rhagddyddio dyddiad gosod y safonau ac felly nad oedd gofyniad ar y corff i gynnal unrhyw asesiad neu fod wedi mabwysiadu unrhyw fethodoleg benodol i asesu effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg. Ar sail y dyddiadau a roddwyd i'r Comisiynydd, daeth i'r casgliad fod y broses o lunio'r polisi dan sylw wedi dechrau cyn y dyddiad yr oedd y Brifysgol yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, ond bod y safonau wedi dod i rym yn ystod y broses o lunio'r polisi.

Roedd y Comisiynydd eisoes wedi datgan ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cynnal asesiad ystyrllon o effeithiau posib y cynigion ar y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd hefyd o'r farn y dylai'r Brifysgol fod wedi cynnal yr asesiad cyntaf cyn cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol. Yn wir, roedd o'r farn y dylai'r asesiad fod wedi ei gynnal cyn cyflwyno'r cynigion i Gyngor y Brifysgol. Wrth gymeradwyo penderfyniadau sydd yn debygol o gael traweffaith amlwg ar staff (gan gynnwys staff sydd yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol, ac effaith newidiadau o'r fath ar ysbryd y staff), strwythur y Brifysgol a hefyd agweddau tuag at ymrwymadau'r Brifysgol at y Gymraeg, mae'r Comisiynydd o'r farn ei bod hi'n hollbwysig bod Cyngor y Brifysgol yn derbyn asesiadau llawn o effeithiau posib y penderfyniadau hynny ar y Gymraeg cyn mynd ati i'w cymeradwyo.

Yn ei hymateb i'r hysbysiad tystiolaeth dywed y Brifysgol bod Asesiad Ardrawiad Iaith wedi ei gynnal un diwrnod wedi i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Roedd y Brifysgol wedi cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb wrth lunio'r ddogfen ymgynghori oedd yn cynnwys adran am y Gymraeg.

Barn y Comisiynydd yw nad yw cynnal asesiad effaith o benderfyniadau polisi arfaethedig ddiwrnod ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben yn cyfateb i gydymffurfiaeth â gofynion y safonau hyn. Er bod y Brifysgol wedi egluro ei bod wedi bod yn y broses o ddatblygu teclyn asesu ardrawiad iaith, nid oedd wedi nodi'r rheswm pam y penderfynwyd parhau â'r broses ymgynghori cyn cynnal asesiad llawn o effeithiau'r cynigion. Nid oedd y Brifysgol ychwaith wedi cynnig rheswm pam nad oedd yn bosib gohirio'r broses ymgynghori hyd nes yr oedd asesiad llawn wedi i gynnal (boed hynny gyda'r teclyn neu beidio).

Casgliad y Comisiynydd felly yw nad oedd y Brifysgol wedi cynnal asesiad digonol o effaith y cynigion a oedd wedi eu gosod yn y ddogfen ymgynghorol. Serch hynny, mae dyddiad cymeradwyo'r bwriad o ymgynghori ar y ddogfen yn rhagddyddio dyddiad gosod y safonau perthnasol. O ganlyniad, nid oedd dyletswydd ar y Brifysgol i gydymffurfio â'r safonau.

Gyda golwg eto ar ofynion y safonau, mae'n ofynnol i'r Brifysgol, wrth gyhoeddi dogfen ymgynghorol, i ystyried a cheisio barn ynghylch effeithiau posib unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

Wrth gyflwyno'r wybodaeth bellach, roedd y Brifysgol hefyd wedi egluro nad oedd agenda wedi ei pharatoi ar gyfer y cyfarfodydd er mwyn llywio unrhyw drafodaethau. Casgliad y Comisiynydd felly oedd nad oedd ymdrech benodol i gasglu barn ac adborth am effaith y cynigion sydd wedi eu gosod yn y ddogfen ymgynghori ar y Gymraeg.

Roedd y Comisiynydd yn cydnabod bod y Brifysgol wedi derbyn sylwadau, ac yn fodlon bod y sylwadau hynny wedi cael sylw ystyrllon a bod yr ystyriaethau hynny wedi arwain at wella'r

cynigion terfynol. Fodd bynnag, barn y Comisiynydd oedd y dylai'r Brifysgol wedi bod yn fwy rhagweithiol wrth geisio barn ar effaith y cynigion ar y Gymraeg. Nid yw'n briodol disgwyl i'r gynulleidfa darged i gofio ystyried effeithiau posib penderfyniadau polisi ar y Gymraeg. Mae dyletswydd ar y Brifysgol i gymhell a sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â hwy yn ystyried y Gymraeg, a'r dull arferol o wneud hynny, a'r mwyaf effeithiol ym marn y Comisiynydd, yw drwy ofyn cwestiynau penodol neu gynnwys y Gymraeg o fewn agenda unrhyw gyfarfodydd neu drafodaethau a drefnir fel rhan o'r ymgynghoriad.

Yn ei hymateb i'r hysbysiad tystiolaeth, gwnaeth y Brifysgol gadarnhau nad oedd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys unrhyw gwestiynau penodol yn ymwneud ag effeithiau posib y cynigion ar y Gymraeg. O ganlyniad, casgliad y Comisiynydd oedd na wnaeth y Brifysgol sicrhau bod y ddogfen ymgynghorol yn ceisio barn ynghylch effeithiau posib ar y Gymraeg yn unol â gofynion y safon. Serch hynny, mae dyddiad cyhoeddi'r ddogfen ymgynghorol a chychwyn y broses ymgynghori yn rhagddyddio dyddiad gosod y safonau perthnasol. O ganlyniad, nid oedd dyletswydd ar y Brifysgol i gydymffurfio â'r safonau.

## 5 Ystyried gofynion y safonau llunio polisi yn gyfochrog â gofynion eraill

- 5.1 Nid yw gofynion y safonau llunio polisi yn bodoli mewn gwagle ar wahân i ofynion sy'n deillio o ddeddfau neu ddyletswyddau eraill.
- 5.2 Nid yw'r ffaith fod deddfau eraill yn gofyn, er enghraifft, am asesiadau penodol o effaith y polisi ar feysydd amrywiol yn golygu nad yw'r ddyletswydd sydd wedi ei gosod ar gyrff o safbwynt y safonau llunio polisi yn parhau'n weithredol. Mae rhai cyrff wedi cymhwyso'r ddyletswydd mewn perthynas â safonau llunio polisi'r Gymraeg mewn modd integredig ac yn rhan o broses asesu effaith eang. Yn sicr nid yw gofynion deddfau eraill, hyd yn oed os ydynt yn cyfeirio yn benodol at y Gymraeg o fewn y deddfau hynny, ddim yn eithrio'r angen i gydymffurfio gyda safonau llunio polisi o dan Fesur y Gymraeg.
- 5.3 Ceir enghreifftiau isod o rai o'r gofynion hyn sy'n deillio o ddeddfau eraill lle ceir cyfeiriad hefyd at y Gymraeg.

### Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008<sup>3</sup>

Mae'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008 (y Mesur Teithio) yn gosod swyddogaethau, gan gynnwys dyletswyddau ar awdurdodau lleol, mewn perthynas â threfniadau cludo a theithio i ysgolion a mannau addysg eraill. Dyma'r cymalau perthnasol:

**6(2)** Caiff yr awdurdod lleol wneud trefniadau teithio i hwyluso'r ffordd i'r dysgwr fynychu man lle y mae'r person hwnnw'n cael addysg neu hyfforddiant

**6(3)** Caiff awdurdod lleol godi tâl am drefniadau teithio a wneir o dan yr adran hon ar gyfer disgyblion cofrestredig o oedran ysgol gorfodol yn unol â darpariaethau adrannau 455 a 456 o Ddeddf Addysg 1996.

**6(4)** Caiff awdurdod lleol godi tâl am drefniadau teithio a wneir o dan yr adran hon ar gyfer dysgwyr eraill.

**10** Rhaid i bob awdurdod lleol a Gweinidogion Cymru hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant yn arfer swyddogaethau o dan y Mesur hwn.

- 5.4 Felly, os yw awdurdod lleol yn penderfynu llunio neu addasu polisi sy'n ymwneud â threfniadau cludo a theithio i ysgolion a mannau eraill (a darpariaethau eraill y Mesur Teithio), mae adran 10 y Mesur yn creu dyletswydd ar y corff hwnnw, wrth weithredu ei swyddogaethau, i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'n fater dewisol, nac yn fater o ddisgresiwn. Nid yw'n fater o "roi sylw dyledus" i hybu addysg Gymraeg, ond o'i hybu go iawn. Ochr yn ochr â'r ddyletswydd dan y Mesur Teithio, mae penderfyniad polisi fel hwn yn ddarostyngedig i'r safonau llunio polisi. Gan ystyried hynny, disgwylir i'r weithred o ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg (yn ehangach) fod yn rhan anhepgor o lunio, adolygu neu addasu'r polisi o'r dechrau. Dylid gwneud hyn cyn i'r penderfyniad polisi terfynol gael ei wneud.

---

<sup>3</sup> [Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2008](#)

### **Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Mae adran 84(2) Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013<sup>4</sup> yn datgan fod 'rhaid i awdurdod lleol lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer ei ardal'. Nodir y dylai cynllun o'r fath gynnwys:

(a) Cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau addysg er mwyn:

i. Gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ("addysg cyfrwng Cymraeg") yn cael ei darparu yn ei ardal

ii. Gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg a safonau addysgu Cymraeg yn ei ardal

(b) Targedau'r awdurdod lleol ar gyfer gwella'r broses o gynllunio'r modd y mae addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu yn ei ardal ac ar gyfer gwella safonau'r addysg honno ac addysgu Cymraeg yn ei ardal;

(c) Adroddiad ar y cynnydd a wnaed i fodloni'r targedau a gynhwyswyd yn y cynllun blaenorol neu'r cynllun diwygiedig blaenorol.

5.5 Mae'r Comisiynydd yn ystyried bod y ddyletswydd sydd ar awdurdod lleol i lunio cynllun strategol Cymraeg mewn addysg ar gyfer yr ardal dan sylw yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. O ganlyniad, dylai corff o'r fath sicrhau ei fod yn mynd ati i ystyried y dyletswyddau sydd arno o dan y safonau llunio polisi mewn modd sy'n gyfochrog ag unrhyw ddyletswyddau penodol mewn cysylltiad â chynllun strategol Cymraeg mewn addysg.

### **Nodyn Cyngor Technegol 20 – Cynllunio a'r Gymraeg<sup>5</sup>**

Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Nodyn Cyngor Technegol 20 ar Gynllunio a'r Gymraeg (TAN 20). Pwrpas TAN 20 yw darparu arweiniad ynglŷn â'r ffordd y gellir rhoi ystyriaeth briodol i'r Gymraeg yng nghyd-destun y system gynllunio ac ar gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaethau perthnasol eraill.

Tra bod disgwyl i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal, mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn rhoi'r modd i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS) ar draws ffiniau, a hynny fesul rhanbarth. Mae hefyd yn cynnwys darpariaeth i alluogi Gweinidogion Cymru i baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC).

Mae disgwyl i'r CDLI ganolbwyntio ar faterion ac amcanion lleol, gan wneud hynny yn unol â strategaethau lleol a sylfaen o dystiolaeth. Un o'r pynciau y bydd gofyn ei ystyried wrth baratoi CDLI yw sut y bydd y strategaeth a'r polisiau'n debygol o effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a chynaliadwyedd cymunedau.

Mae adran 62 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (DCPG) yn ei gwneud hi'n ofynnol bod arfarniad o gynaliadwyedd yn cynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ardal yr ACLI. Mae'n ofynnol o dan adran 61 DCPG bod ACLI yn cadw'r materion y gellid eu disgwyl i ddylanwadu ar ddatblygiad yr ardal neu ar gynllunio'r datblygiadau hynny dan sylw, gan gynnwys lefel defnyddio'r Gymraeg yn yr ardal.

Mae Rhan A, paragraffau 2.3 – 2.6 TAN 20 yn rhoi cyngor manwl ynghylch sut i ddefnyddio'r AoG i asesu effaith bosibl y strategaeth, polisiau a'r dyraniadau yn y CDLI ar y Gymraeg.

<sup>4</sup> [http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/pdfs/anaw\\_20130001\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/pdfs/anaw_20130001_mi.pdf)

<sup>5</sup> <https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-20-cynllunio-ar-gymraeg>

- 5.6 Yn gyfochrog ag asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ardal, dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg drwy ystyried holl effeithiau eu Cynlluniau Datblygu Lleol arfaethedig ar y Gymraeg. Nid yw'r Comisiynydd o'r farn fod y gofyniad o dan adran 62 DCPG yn golygu bod y gofyniad i gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg yn cael ei ddileu.
- 5.7 Gan eu bod yn deillio o ddau ofyniad statudol ar wahân, mae'n hollol briodol disgwyl i gyrff sicrhau eu bod yn mynd y tu hwnt i ofynion adran 62 er mwyn ystyried yr effeithiau ehangach ar y Gymraeg ac i gydymffurfio â'r safonau llunio polisi dan Fesur y Gymraeg.

### Cod Trefniadaeth Ysgolion

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion<sup>6</sup>. Mae'r Cod yn gosod gofynion y bydd angen i gyrff perthnasol (Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a hyrwyddwyr eraill) weithredu yn unol â hwy.

Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ymarferol y mae'n rhaid i gyrff perthnasol dalu sylw iddynt, ac mae'n nodi'r cyd-destun polisi, yr egwyddorion cyffredinol a'r ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion i ad-drefnu darpariaeth ysgolion, a chan y rhai sy'n gyfrifol am benderfynu ar gynigion.

Mae Atodiad C y Cod Trefniadaeth Ysgolion, 'Asesiadau o'r effaith ar y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg', yn datgan fod 'Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylai'r gofyniad i gynnal asesiadau fod yn rhy feichus ac nid yw'n ystyried bod angen comisiynu gwaith o'r fath gan ymgynghorwyr allanol. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol eisoes i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb, a allai fod yn sail i'r asesiadau effaith a nodir yn y canllawiau hyn.' Mae'n nodi y 'gallai'r asesiad o'r effaith mewn perthynas â'r Gymraeg gynnwys y canlynol:

- o gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol;
- o gwybodaeth am gategori iaith unrhyw ysgol amgen;
- o gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen;
- o gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn unrhyw ysgol amgen (e.e. clybiau'r Urdd, clybiau Mentrau Iaith);
- o gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg, a lle y gellid darparu unrhyw gyfleusterau amgen
- o a allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ychwanegol ar ôl ysgol mewn unrhyw ysgol amgen i atgyfnerthu safonau'r Gymraeg;
- o sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar unrhyw ysgol amgen ac unrhyw welliant penodol o ran darpariaeth ieithyddol y mae'r ysgol honno yn ei gynnig (e.e. sut y cynorthwyr disgyblion i gymryd rhan yng nghlybiau'r Urdd, clybiau Mentrau Iaith);
- o sylwadau a ddarperir gan fforwm addysg Gymraeg yr awdurdod lleol (os oes un ganddo)
- o gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun.'

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/cod-trefniadaeth-ysgolion>



5.8 Mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddogfennau ymgynghori cyrff ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau posib y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Gan law addysg Gymraeg yw ffocws Asesiad Effaith ar y Gymraeg o dan y Cod Trefniadaeth Ysgolion, nid yw'r Comisiynydd o'r farn fod asesiad o'r fath yn dileu neu'n rhyddhau cyrff o'r dyletswyddau a osodir arnynt drwy gyfrwng safonau'r Gymraeg. Mae'r gofynion i gydymffurfio â'r Cod a'r Safonau o dan ddwy drefn statudol wahanol, felly mae'n briodol ei gwneud yn ofynnol i gyrrff fynd y tu hwnt i'r gofynion a nodir yn y Cod wrth ystyried yr effeithiau ehangach posibl ar y Gymraeg.

### **Astudiaeth achos: Adolygiad barnwrol o benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd**

Ar 30 Gorffennaf 2020, daeth barnwr yn yr Uchel Lys i'r casgliad fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi methu yn ei ddyletswydd i ystyried effaith ei gynigion i gau ysgol ar y Gymraeg.

Daeth y Llys i'r casgliad fod y Cyngor wedi methu ystyried yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol ac ar y cymunedau oedd yn cael eu gwasanaethu gan yr ysgol; yr effaith ar gynaliadwyedd addysg uwchradd Cymraeg yr ardal; a sut y byddai'r penderfyniad yn cyfrannu at nod strategol y Llywodraeth a'r cyngor o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd y Comisiynydd yn ystyried ei bod yn hanfodol iddo ymyrryd a chyfrannu tystiolaeth yn yr achos hwn gan ei fod yn fater pwysig i ddyfodol addysg Gymraeg a byddai'n helpu i sicrhau y caiff gofynion Mesur y Gymraeg eu deall. Mae'r achos hwn yn dangos yn glir i gynghorau fod rhaid i ddisgyblion gael mynediad at neu barhau i dderbyn addysg o leiaf o'r un safon a gyda'r un cyfleoedd yn yr iaith o'u dewis hwy. Nid yw hyn yn ddewis, ond yn orfodol yng Nghymru. Mae hefyd yn nodi yn hollol glir, gydag unrhyw gynigion sydd yn mynd i effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n rhaid cynnal asesiad trylwyr ar yr effaith. Nid dewisol yw hyn chwaith.

Mae'r barnwr yn yr achos hwn hefyd yn nodi nad oedd yr asesiad iaith a wnaed yn ystyrllon, h.y. arwynebol, ac y byddai cydymffurfio yn llawn â Safonau'r Gymraeg yn golygu y byddai'r cyngor yn llawer iawn mwy tebygol o fod wedi cydymffurfio gyda'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn ogystal.<sup>7</sup>

Yn y cyd-destun penodol hwn, mae gorgyffwrdd rhwng safonau'r Gymraeg a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn yr ystyr eu bod yn ceisio mynd i'r afael â'r angen i ystyried yr effaith ar gynaliadwyedd (neu wellhad) y ddarpariaeth Gymraeg o fewn y rhwydwaith (oedran) 14-19 a'r ardal ehangach, yn ogystal â hyrwyddo mynediad at argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg ôl-16.

Mae ad-drefnu ysgolion yn broses benderfynu sy'n esblygu. Mae'r broses ymgynghori yn golygu, efallai, na fydd y cynigion terfynol, ac o reidrwydd yr effaith y bydd cynigion o'r fath yn eu cael, yn hysbys tan yn hwyr yn y dydd. Barn y Comisiynydd yw y dylid ystyried yr effaith ar y Gymraeg yn gyfannol; mae'n rhaid i ymwybyddiaeth o effaith ac ystyriaeth o'r un peth fod yn sail i unrhyw benderfyniadau rhesymegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

<sup>7</sup> [Barnwr yn dyfarnu fod Cyngor wedi methu yn ei ddyletswydd i ystyried effaith cau ysgolion ar y Gymraeg - datganiad i'r wasg \(llawn\) y Comisiynydd](#)

Yn ogystal â hynny, mae dyletswyddau penodol o dan safonau'r Gymraeg y mae'r Comisiynydd yn eu gorfodi. Mae gorfodi'r materion hynny yn ymwneud â chydymffurfiaeth â safonau: nid ydynt yn ymwneud â'r penderfyniad polisi ei hun. O ran hynny, mae'n arbennig o bwysig bod ystyriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg a dyletswyddau ymgynghori sy'n ymwneud â'r un peth yn cael eu hystyried yn eu cyd-destun. Mae angen ystyried effaith y cynigion, yn eu cyfanrwydd, ar addysg cyfrwng Cymraeg.

Am ddarllen pellach, cyfeiriwch at Atodiad 4, sy'n cynnwys crynodeb o'r pwyntiau allweddol sy'n deillio o ddyfarniad yr Anrhydeddus Mr Ustus Fraser, ynghyd â dolen at y dyfarniad yn llawn.

## 6 Pwy ddylai ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae corff yn eu gwneud ar y Gymraeg?

- 6.1 Mae'n bwysig fod yr unigolyn (neu'r unigolion) sy'n gyfrifol am ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae corff yn eu gwneud ar y Gymraeg yn meddu ar y sgiliau a'r elfennau canlynol neu allu cymryd camau priodol i'w caffael:
- o bod â dealltwriaeth fanwl o'r maes polisi dan sylw
  - o meddu ar ymwybyddiaeth dda o sefyllfa'r Gymraeg - yn gyfreithiol, yn gymunedol ac yn ardal ddaearyddol (benodol) y corff dan sylw
  - o bod mewn sefyllfa i sicrhau y gall newidiadau gael eu gwneud pan fo hynny'n ofynnol
  - o bod â chefnogaeth ac arweinyddiaeth uwch reolwyr / penaethiaid
- 6.2 Tu hwnt i'r unigolyn (neu'r unigolion) cyfrifol, byddai sicrhau mewnbwn gan dîm ehangach sy'n gyfrifol am ystyried effeithiau penderfyniadau polisi y mae corff yn eu gwneud ar y Gymraeg yn helpu i ddod ag ystod o brofiad ac arbenigedd i'r broses, yn enwedig pan nad oes gan yr unigolyn sy'n cynnal yr asesiad arbenigedd helaeth o ran materion yn ymwneud â'r Gymraeg.
- 6.3 Mae'r Comisiynydd hefyd yn ymwybodol o rai cyrff (neu adrannau o fewn cyrff) sy'n mynd ati i gomisiynu unigolion allanol i gynnal asesiad effaith ar eu rhan. Mae'r bobl allanol hyn fel rheol yn unigolion neu'n gwmnïau sy'n meddu ar arbenigedd penodol o ran y Gymraeg.
- 6.4 Yr hyn sy'n greiddiol i lwyddiant y broses hon yw, er gwaetha'r ffaith fod swyddogion ar draws sefydliadau'n gyfrifol am ystyried effaith penderfyniadau polisi ar feysydd gwahanol, bod y Gymraeg yn rhan o'r broses pan fyddan nhw'n gwneud hynny, yn hytrach na bod ystyriaethau o ran y Gymraeg yn digwydd ar wahân i weddill y penderfyniad.
- 6.5 Er mwyn sicrhau bod strwythurau cyrff cyhoeddus yn cael eu datblygu'n unol â'r nodau sydd wedi eu nodi uchod, dylid:
- o cymryd camau i wella dealltwriaeth yr holl swyddogion cyfrifol ynghylch sut i ystyried yr effaith ar y Gymraeg, a'r holl wahanol ffactorau a all effeithio ar y Gymraeg
  - o sicrhau bod gan arbenigwyr fewnbwn i'r broses o ystyried yr effaith ar y Gymraeg, er enghraifft o ran cyfrannu gwybodaeth; herio neu graffu ar y broses; neu gymeradwyo asesiad effaith
  - o sicrhau bod y sawl sy'n cymeradwyo'r penderfyniad terfynol (e.e. pennaeth neu fwrdd y sefydliad) yn herio'r penderfyniad o ran yr effaith ar y Gymraeg.

## Swyddogion iaith Gymraeg

- 6.6 Mae gwaith monitro'r Comisiynydd yn dangos bod y graddau y mae swyddogion iaith (neu swyddogion â chyfrifoldeb dros y Gymraeg) yn gysylltiedig â'r broses o ystyried effeithiau penderfyniadau polisi yn amrywio'n fawr. Mae hyn oherwydd bod eu swyddogaethau a'r adrannau lle maent wedi'u lleoli yn wahanol, yn dibynnu ar y sefydliad. Mae natur eu swyddi yn amrywio gyda rhai swyddogion yn cyfuno swyddogaethau'r Gymraeg a chydraddoldeb, er enghraifft. Hyd yn oed yn yr achosion hyn, mae eu dylanwad yn amrywio gyda rhai yn gyfrifol am y broses asesu effaith yn ei chyfanrwydd ac eraill yn chwarae rôl ymgynghorol yn unig.
- 6.7 Yn y mwyafrif helaeth o sefydliadau, rôl darparu cyngor ac arweiniad ar faterion polisi sydd gan y swyddogion iaith a hynny, yn aml, yn anffurfiol ac yn ôl y gofyn. Mae lefel y ceisiadau am gyngor o adrannau gwahanol yn amrywio ar draws y cyrff yn ogystal.
- 6.8 Er bod sicrhau arbenigedd a phrofiad ym maes y Gymraeg wrth ystyried effaith eu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yn bwysig, dylai cyrff hefyd ofalu rhag creu llwyth gwaith annerbyniol i swyddog iaith. O ganlyniad, byddai'n ddoeth i gyrff ystyried uwchsgilio staff eraill sydd ynghlwm â'r broses dan sylw i'w galluogi i'w chynnal yn effeithiol.
- 6.9 Yn gyffredinol, mae sicrhau bod prosesau corff i gydymffurfio gyda'r safonau llunio polisi yn mewnloli'r Gymraeg, er mwyn gallu manteisio ar systemau strwythuredig sydd eisoes yn bodoli, yn allweddol.

## 7 Methodoleg ar gyfer ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg

- 7.1 Wrth lunio polisi newydd, neu adolygu neu addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, mae'n bwysig fod corff yn ystyried a nodi'r holl effeithiau perthnasol y gall penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 7.2 Yn yr un modd, gallai corff ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

### Cam 1: Casglu gwybodaeth

- 7.3 Er mwyn hwyluso asesiad effeithiol y cam cyntaf fydd casglu gwybodaeth am y penderfyniad polisi dan sylw. Dyma'r math o wybodaeth y dylid ei chasglu er mwyn gallu cynnal asesiad effeithiol ar y Gymraeg (nid yw hon yn rhestr gyflawn):
- o amcanion y polisi
  - o unrhyw bŵer neu ddyletswydd statudol o dan ddeddfwriaeth gynradd neu eilaidd neu y cyfeirir ati mewn dogfennau canllaw eraill sy'n gysylltiedig â'r amcanion polisi
  - o natur y gweithgaredd
  - o pwy fydd yn elwa o'r polisi / grwpiau targed
  - o canlyniadau / deilliannau
  - o partneriaid/rhanddeiliad â diddordeb
  - o proffil ieithyddol presennol (neu a ragwelir) yr ardal(oedd) daearyddol dan sylw
  - o hyd oes y gweithgaredd
  - o data neu ymchwil perthnasol
  - o trefniadau/dogfennau ymgynghori
  - o trefniadau monitro ac asesu

### Cam 2: Ffactorau posib i gasglu tystiolaeth yn eu cylch wrth ystyried effeithiau penderfyniadau polisi ar y Gymraeg<sup>8</sup>

#### Polisiau cenedlaethol

1. A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at, neu'n niweidio, amcanion a nodau strategaethau'r Gymraeg yn genedlaethol ac mewn meysydd polisi

---

<sup>8</sup> Mae'r ffactorau sydd wedi eu rhestru yn yr adran hon i'w hystyried dim ond i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r penderfyniad polisi dan sylw. Mater i'r corff yw meddwl am y manylder angenrheidiol.

penodol (e.e. strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg a deddfau neu is-deddfwriaethau'n ymwneud â'r Gymraeg)?

### **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**<sup>9</sup>

2. A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at, neu'n niweidio'r nodau canlynol:
  - trosglwyddo'r iaith Gymraeg yn llwyddiannus o fewn y teulu
  - cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng nghyd-destun y blynyddoedd cynnar, oedran addysg statudol ac addysg ôl-orfodol
  - cynyddu nifer y gweithlu addysg sy'n gallu siarad a defnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith
3. A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at, neu'n niweidio'r nodau canlynol:
  - cynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn cyd-destun y gweithle
  - cynyddu defnydd o wasanaethau Cymraeg
  - cynyddu defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
4. A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at, neu'n niweidio'r nodau canlynol:
  - cefnogi seilwaith economaidd gymdeithasol cymunedau Cymraeg
  - sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod fel rhan annatod o ddiwylliant cyfoes Cymru
  - sicrhau bod y Gymraeg wrth wraidd arloesi mewn technoleg ddigidol i'w gwneud yn bosibl defnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun digidol
  - sicrhau bod seilwaith ieithyddol y Gymraeg (geiriaduron, terminoleg, y proffesiwn cyfieithu) yn parhau i ddatblygu ac yn rhan annatod o'r broses o weithredu Cymraeg 2050
  - sefydlu cynllunio ieithyddol a hybu'r iaith yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol fel elfennau hanfodol, gan ddeall dwyieithrwydd ac anghenion siaradwyr Cymraeg yn well a'u cefnogi

### **Proffil ieithyddol a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg**

5. A fyddai'r penderfyniad polisi yn:
  - effeithio'n gadarnhaol (neu'n andwyol) ar amcanion a thargedau strategaeth hybu 5 mlynedd y corff?
  - cynyddu (neu ostwng) nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal benodol?
  - cael effaith ar gyfleoedd a nifer neu'r ganran y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg?
  - arwain at gynnydd (neu ostyngiad) yn nifer yr unigolion sy'n dysgu'r iaith?

### **Hyfywedd y Gymraeg**

6. I ba raddau y byddai'r penderfyniad polisi yn effeithio'n gadarnhaol neu'n andwyol ar
  - ddiogelu'r Gymraeg mewn ardal benodol

---

<sup>9</sup> <https://llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg>

- o cynaladwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y gymuned honno
- o cymryd camau i hybu'r Gymraeg
- o ffyniant y Gymraeg fel iaith teulu, cymuned, neu'r gweithle

### Staffio

7. A fyddai'r penderfyniad polisi yn:
- o arwain at gynnydd (neu ostyngiad) yn nifer y swyddi lle mae gofyn am sgiliau Cymraeg?
  - o annog / ei gwneud yn haws (neu'n anoddach) i recriwtio siaradwyr Cymraeg?
  - o lleihau dealltwriaeth a/neu ymwybyddiaeth ar lefel strategol?
  - o golygu bod corff yn colli lladmerydd neu eiriolwr dros siaradwyr Cymraeg?

### Gweithgareddau

8. Y tu hwnt i ddyletswyddau statudol safonau cyflenwi gwasanaethau, a fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effaith gadarnhaol neu andwyol ar
- o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?
  - o arwain at beryglu'r gweithgaredd(au)?
  - o golygu bod hygyrchedd a mynediad at y gweithgaredd Cymraeg yn cael eu cyfyngu?

### Ystyriaethau eraill

9. I ba raddau y byddai'r penderfyniad yn arwain at ddeilliannau economaidd cadarnhaol neu andwyol yn yr ardal leol (neu tu hwnt)?

### Cam 3: Effeithiau positif ac effeithiau andwyol - cyflwyno mesurau lliniaru <sup>10</sup>

- 7.4 Ar ôl cyflawni camau 1 a 2, mae'r safonau'n nodi bod rhaid i gorff roi ystyriaeth ddyledus i ganlyniadau effaith o'r fath a chyflwyno mesurau lliniaru'n sgil hynny. Mae'r safonau yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried sut y gellir llunio polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar
- y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac
  - ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 7.5 Mae'r safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gorff ystyried sut y gellir llunio polisi (neu newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar
- y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, ac

<sup>10</sup> Daw testun Cam 3 o [God Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#) y Comisiynydd

- ii. ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 7.6 Mae'r safon yn nodi bod rhaid i gorff ystyried unrhyw opsiynau i liniaru neu atal effeithiau andwyol y gall y penderfyniad polisi eu cael ar yr iaith Gymraeg. Rhaid hefyd ystyried yr opsiynau o ran sut i sicrhau effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif ar y cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bydd hyn yn amrywio yn unol â natur y penderfyniad polisi. Rhoddir enghreifftiau isod o rai ffactorau y gall corff eu hystyried er mwyn gwneud hynny:

### **Angen a galw**

- 1) Ydy'r mesur yn angenrheidiol?
- 2) A fyddai'n bosibl i gwrdd â'r galw heb unrhyw ddatblygiad o'r newydd?
- 3) A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sydd eisoes yn bodoli?

### **Dull a phroses**

- 4) Sut ddylai ddigwydd?
- 5) A yw buddiannau'r iaith Gymraeg wedi eu cynllunio fel rhan o'r broses?
- 6) Oes modd defnyddio dulliau gwahanol/llai niweidiol?

Dylid ystyried ffactorau megis technoleg a chynllunio i sicrhau bod prosesau yn cefnogi dwyieithrwydd yn hytrach na'i rwystro.

### **Lleoliad**

- 7) Ble ddylai'r datblygiad fod?
- 8) Beth yw dylanwad daearyddol y polisi?

Mae ystyriaethau o'r fath yn allweddol i ddyfodol cymunedau iaith Gymraeg. Dylai datblygiadau fod yn sensitif i anghenion cymunedau o'r fath a dylai bod dealltwriaeth o broffil ieithyddol presennol (a/neu a ragwelir) cymunedau ac ardaloedd. Dylid ystyried lleoliad gwasanaethau eraill perthnasol hefyd – e.e. lleoliad ysgolion Cymraeg lleol.

### **Amseriad**

- 9) Pryd ac ym mha drefn dylai datblygiadau ddigwydd?

Mae graddfa datblygu yn bwysig hefyd mewn rhai meysydd a gellid lleihau effaith niweidiol er enghraifft drwy ymestyn y gwaith datblygu dros gyfnod o amser.



## Templedi asesu effaith enghreifftiol

7.7 Isod, ceir dwy enghraifft o dempledi asesu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg a gaiff eu defnyddio gan ddau gorff cyhoeddus. Mae'r enghreifftiau hyn yn berthnasol i'r cyrff wnaeth eu llunio, felly byddai'n synhwyrol i gyrrff eraill lunio templedi sy'n addas at eu dibenion nhw eu hunain.

### **Astudiaeth achos: Templed Asesu Effaith Llywodraeth Cymru**

Cwestiynau Asesiad o Effaith ar yr Iaith Gymraeg

Gweler isod gyfres o gwestiynau cyffredinol i'ch helpu i ddechrau'r broses feddwl.

#### **Beth yw'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg?**

- Beth yw amcanion y polisi, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r Gymraeg?
- A yw'r polisi, neu a allai'r polisi, hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy a/neu'r defnydd o'r Gymraeg?
- Pa agweddau ar y polisi sy'n arbennig o berthnasol i'r Gymraeg?
- Pa rai o Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol? (Cliciwch yma i fynd at y Safonau.)
- A allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Pa grwpiau Cymraeg sy'n berthnasol i'r polisi hwn?
- A yw'n bolisi a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau neu sut caiff gwasanaethau neu swyddogaethau eu cyflawni?
- A fydd yn cael effaith ar sut mae cyrff eraill yn gweithredu o ran y Gymraeg (er enghraifft, strategaeth genedlaethol neu feini prawf arolygu)?
- A yw'n ymwneud â swyddogaethau y mae ymarferion ymgysylltu blaenorol wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig i siaradwyr Cymraeg?

#### **A fydd y camau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

- Defnyddio'r Gymraeg
- Cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg
- Niferoedd a/neu ganrannau siaradwyr Cymraeg
- Rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg
- Trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd/o un genhedlaeth i'r llall
- Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cynyddu seilwaith a/neu gyfryngau digidol Cymraeg
- Llif siaradwyr Cymraeg i gadarnleoedd Cymraeg traddodiadol a'r llif oddi wrthynt
- Effaith net nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal/neu'n genedlaethol
- Hyrwyddo'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i statws.

#### **I ba raddau y bydd y camau arfaethedig yn effeithio ar y canlynol?**

- Cadarnleoedd Cymraeg traddodiadol lle mae'r boblogaeth yn lleihau ac a allai fod dan fygythiad pellach (lle'r oedd tua 70% yn siarad Cymraeg o'r blaen)
- Nodweddion ardal ddaearyddol, fel agosrwydd adnoddau hanesyddol neu ddiwylliannol, safleoedd y mae'r Gymraeg yn berthnasol iddynt, sy'n rhoi ymwybyddiaeth o Gymru ac â chysylltiadau twristaidd, mynediad i wasanaethau Cymraeg
- Effeithio'n andwyol ar ardaloedd, safleoedd, priffyrdd, strwythurau, neu wrthrychau

sydd o ddiddordeb i siaradwyr Cymraeg.

### **A allai'r polisi/cam gweithredu olygu na chydymffurfir â Safonau'r Gymraeg?**

- A yw'n effeithio ar safonau gwasanaethau, ee sut mae'r sefydliad yn trefnu contractau, grantiau, gohebiaeth, systemau TG etc?
- Ym mha ffyrdd allai'r polisi effeithio'n negyddol ar Safonau Gweithredu, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg o fewn y sefydliad, sgiliau Cymraeg y gweithlu a'r gwasanaeth cyfieithu?
- A yw'r polisi yn mynd yn groes i'r Safonau Llundain Polisi?

### **Sut mae hyn yn hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig y defnydd o'r Gymraeg?**

- A yw'r polisi yn cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg a/neu ddysgwyr ddefnyddio'r iaith?
- A yw'n annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith?
- A oes cyfle i annog pobl i basio'r Gymraeg ymlaen o un genhedlaeth i'r llall?
- A allai'r polisi hwn hyrwyddo addysg Gymraeg neu gyfleoedd i astudio drwy'r Gymraeg?
- A all y polisi hwn hyrwyddo statws y Gymraeg neu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith?
- Allai hyn greu cyfleoedd i godi hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg neu wella eu sgiliau er mwyn defnyddio'r Gymraeg yn amlach neu mewn mwy o sefyllfaoedd?

### **Penderfynu pwy, pryd a ble:**

Nawr eich bod wedi rhestru'r holl effeithiau posibl, ystyriwch pwy y mae'n debygol o effeithio arnynt a phryd a ble. Gallai effeithiau sy'n gadarnhaol i rai grwpiau fod yn andwyol i grwpiau eraill - hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg.

- Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, gallai cynnig fod yn fuddiol i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.
- Siaradwyr Cymraeg
- Dysgwyr Cymraeg
- Plant mewn ysgolion neu grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg
- Defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg

Yn ail, ystyriwch yr effeithiau yn ddaearyddol yn ôl ardal. Mae gwahanol faterion sy'n ymwneud â'r iaith yn codi mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae data demograffig ar gael yn ôl ward yn nata Cyfrifiad 2011.

Yn drydydd, dylech ystyried yr effeithiau ar y sefyllfaoedd hynny lle mae anghydraddoldeb eisoes: dylech ystyried grwpiau Cymraeg, ardaloedd lle mae niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg yn dirywio (gan ddefnyddio canlyniadau'r Cyfrifiad). Dylai polisïau geisio unioni anghydraddoldebau a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo modd.

---

## **Astudiaeth achos: Templed Asesu Effaith Comisiynydd Pobl Hŷn**

### **1: CYNLLUNIO**

Disgrifiwch yn gryno'r math o waith (h.y. prosiect/polisi/ymchwil), ac egluro sut mae'r darn hwn o waith yn cyd-fynd â rhaglen waith a strategaeth y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Beth yw amcanion y polisi/prosiect? Beth fydd 'llwyddiant' yn ei olygu?

Pa gysylltiadau sydd â strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru?

### **2: YR EFFEITHIAU SYDD WEDI CAEL EU NODI A'U HASESU**

Pa effeithiau rydych chi wedi'u nodi (gan ddefnyddio rhestr wirio'r Asesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg), ynghyd â thebygolrwydd a difrifoldeb/arwyddocâd tebygol yr effaith (gan ddefnyddio'r templed dadansoddi risg)?

Yr effeithiau cadarnhaol:

Yr effeithiau negyddol:

Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg e.e. statws, defnyddio gwasanaethau Cymraeg, defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd, defnyddio mwy ar y Gymraeg yn y gwaith?

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd i ategu'ch asesiad:

#### **Y penderfyniad:**

1. Dim newid o bwys
2. Addasu'r polisi i wella'r effeithiau
3. Bwrw ymlaen â'r polisi gyda mesurau lliniaru
4. Terfynu'r polisi a chael gwared arno

Sut ydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau o ran y Gymraeg? Rhowch fanylion am fesurau lliniaru/opsiynau eraill er mwyn lleihau'r effeithiau niweidiol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

### **3: YMGYNGHORI**

Yn ystod yr ymgynghoriad, pa gwestiynau ydych chi'n dymuno eu gofyn am yr Effeithiau ar yr iaith Gymraeg? Gyda phwy rydych chi'n ymgynghori? Sut mae grwpiau buddiant o ran y Gymraeg yn debygol o ymateb?

Yn dilyn yr ymgynghoriad, pa newidiadau ydych chi wedi'u gwneud er mwyn rhoi sylw i'r materion ieithyddol a godwyd?

### **4: AR ÔL YR YMGYNGHORIAD, GWNEUD Y PENDERFYNIAD TERFYNNOL, MONITRO PARHAUS**

Dylech grynhoi'ch penderfyniadau terfynol, gan restru'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg, a sut byddwch chi'n hyrwyddo/lliniaru'r rhain. Cofnodwch eich cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg.

Sut byddwch chi'n monitro'r effeithiau parhaus tra bydd y polisi ar waith?

## 8 Dogfennau ymgynghori

- 8.1 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 y Comisiynydd yn nodi bod y safonau sy'n ymwneud ag ymgynghori yn 'fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori corff sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio'.
- 8.2 Yn ogystal â sicrhau bod dogfen ymgynghori yn ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi dan sylw ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, rhaid i gorff gynnwys cwestiynau penodol yn y ddogfen sy'n gofyn am ymateb iddynt. Disgwylir i gorff roi sylw dyledus i unrhyw wybodaeth a gesglir yn ystod y broses hon wrth wneud y penderfyniad polisi, fel y byddai'r corff yn gweithredu ar unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o'r ymgynghoriad.
- 8.3 Dyma enghraifft o'r math o gwestiynau y gallai corff eu gofyn wrth ymgynghori er mwyn casglu barn:

Yn eich barn chi, pa effeithiau positif y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar:

- o gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- o pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Yn eich barn chi, pa effeithiau andwyol y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar:

- o gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- o pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Yn eich barn chi, sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar-

- o gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- o peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar-

- o cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- o peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

8.4 Wrth ymgynghori, mae'n bwysig sicrhau bod y sampl ymgynghori yn gynrychioladol o ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith. Os yw ymgynghori yn gyfyngedig i gyrff dethol, gallai corff ystyried sut i sicrhau bod y cyrff cynllunio ieithyddol priodol yn rhan o'r broses. Er enghraifft, yn achos polisi sy'n ymwneud â hamdden a phobl ifanc, gellid ystyried cynnwys yr Urdd neu'r Fenter Iaith leol, ymysg cyrff eraill.

8.5 Mae'n bwysig nodi hefyd y gellir ceisio barn mewn sawl ffordd yn ystod proses ymgynghori er enghraifft cyfarfodydd cyhoeddus, gohebiaeth ysgrifenedig,

holiaduron ar-lein, meddygfeydd wyneb yn wyneb neu gyfweiliadau, a chyfryngau cymdeithasol ymysg opsiynau eraill.

- 8.6 Serch hynny, mae'r safonau dan sylw yn ymwneud yn unig â'r "ddogfen ymgynghori" gyhoeddedig ac nid mathau eraill o ymarfer ymgynghori.
- 8.7 Byddai peidio â darparu cwestiynau penodol yn dangos diffyg rhagweithioldeb wrth geisio casglu barn ynghylch a fyddai darpar benderfyniad polisi yn cael effaith positif neu andwyol ar y Gymraeg neu sut y dylid newid y polisi hwnnw i gynyddu'r effaith positif a lleihau'r effaith andwyol.
- 8.8 Wrth fynd ati i geisio barn fel rhan o ymgynghoriad ar benderfyniad polisi, mae'n bwysig fod cyrff yn sicrhau bod ganddynt ddulliau effeithiol o gynnwys barn, profiad neu arbenigedd rhanddeiliaid perthnasol. Dyma restr o'r math o randdeiliaid y gallai cyrff ystyried ymwneud ac ymgynghori â nhw:
  - o Cyfranddalwyr
  - o Llywodraethau Cymru a'r Deyrnas Gyfunol
  - o Uwch swyddogion gweithredol
  - o Sefydliadau o fewn yr un maes/sector
  - o Cyflenwyr
  - o Y wasg
  - o Grwpiau pwysu
  - o Cwsmeriaid
  - o Y cyhoedd
  - o Y gymuned ehangach

#### **Astudiaeth achos: Cynnig i ad-drefnu ysgolion mewn ardal benodol**

Mae cyngor sir yng Nghymru yn cynnig cau ysgol gynradd ac ysgol uwchradd yn yr ardal a sefydlu ysgol pob oed ddwyieithog newydd ar safleoedd yr ysgolion presennol. Mae'r ysgol gynradd bresennol yn ysgol ddwyieithog dwy ffrwd, a'r ysgol uwchradd yn ysgol ddwyieithog categori 2C (h.y. cynnig ffrwd Gymraeg lle mae 50-79% o'r cwricwlwm ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg). Yn ddiweddar, fe gynhaliodd y cyngor ymgynghoriad ar sefydlu'r ysgol newydd.

Yn dilyn ymholiad gan aelod o'r cyhoedd ynghylch yr ymgynghoriad, edrychodd y Comisiynydd ar y dogfennau oedd eisoes wedi eu cyhoeddi. Cododd yr adolygiad hwn amheuaeth nad oedd yr ymgynghoriad wedi ei gynnal yn unol â gofynion y safonau gan nad oedd y ddogfen ymgynghori a'r holiadur cysylltiedig yn ystyried yn ddigonol nac yn ceisio barn ynghylch cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae asesiad effaith diwygiedig ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'n cynnwys asesiad effaith ar y Gymraeg yn ogystal ag asesiadau effaith ar faterion eraill. Nid oedd yn ymddangos fod yr asesiad wedi ystyried y materion sy'n ofynnol o'r safonau. Yr hyn a geir yn yr asesiad yw:

- o gwybodaeth am safonau llythrennedd a chyfathrebu

- o rhestr o'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i oriau ysgol
- o rhestr o weithgareddau Cymraeg eraill yr ysgol a'r gymuned
- o crynodeb o sylwadau'r ymgynghoriad ar effaith y penderfyniad ar y Gymraeg
- o ymateb y Cyngor i sylwadau'r ymgynghoriad.

Nid oedd yn ymddangos fod asesiad a dadansoddiad wedi ei wneud o gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a sut y gellid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, fe gyhoeddwyd hysbysiad statudol gan y Cyngor yn datgan ei benderfyniad i greu ysgol pob oed ddwyieithog yn yr ardal. Wrth ystyried yr wybodaeth, ystyriodd y Comisiynydd fod amheuaeth nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn ddigonol, yn unol â gofynion y safonau llunio polisi, effeithiau posib y penderfyniad ar gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Canfyddiad y Comisiynydd yw nad oedd y Cyngor, wrth wneud y penderfyniad polisi hwn, wedi ystyried yn ddigonol pa effeithiau byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael yn unol â gofynion y safon. Dyfarnodd y Comisiynydd felly bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion perthnasol yn yr achos hwn. Sail y dyfarniad yw nad oes tystiolaeth bod y Cyngor wedi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau yn fodd o sicrhau bod dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi yn ystyried ac yn ceisio barn gan bersonau ynghylch yr effeithiau posibl y bydd y penderfyniad yn eu cael ar y Gymraeg ac ar y cyfleoedd i'w defnyddio.

Canfyddiad y Comisiynydd yw nad oedd y ddogfen ymgynghori yn ystyried effeithiau posib ar y Gymraeg nac ychwaith yn cynnwys cwestiynau penodol a oedd yn ceisio barn y cyhoedd ynghylch sut yr oedd y penderfyniad polisi arfaethedig yn mynd i effeithio ar gyfleoedd personau i ddefnyddio'r Gymraeg, neu i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r safonau yn gosod gofyniad clir bod rhaid ceisio barn ynghylch yr effeithiau posib yn ogystal â gofyn sut mae modd newid neu addasu'r penderfyniad fel ei fod yn cael effeithiau mwy positif neu lai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid oedd y ddogfen ymgynghori dan sylw yn cynnwys cwestiynau penodol o'r fath.

Dyfarniad y Comisiynydd yw bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r safon berthnasol yn yr achos hwn. Sail gyntaf y dyfarniad yw nad oedd y ddogfen ymgynghori ynghylch y penderfyniad polisi yn cynnwys cwestiynau penodol oedd yn ceisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yr ail sail ar gyfer y dyfarniad yw nad oedd y ddogfen ymgynghori yn trafod yn ddigonol nac yn cynnig opsiynau neu wybodaeth lawn ynghylch effaith bosib y cynnig i alluogi'r cyhoedd i ymateb yn wybodus i'r ymgynghoriad.

### **Astudiaeth achos: Ymgynghori ar strategaeth dai cyngor sir**

Derbyniodd y Comisiynydd gwyn yn honni bod cyngor sir yng Nghymru yn cynnal proses ymgynghori ar strategaeth dai ac nad oedd yr ymgynghoriad yn ystyried effaith y strategaeth ar y Gymraeg. Honnai'r achwynydd nad oedd y gair 'Cymraeg' yn ymddangos yn y ddogfen ymgynghori. Ar sail y gwyn, ystyriwyd fod amheuaeth ddigonol

bod methiant i gydymffurfio gydag un neu ragor o safonau'r Gymraeg sydd yn gosod dyletswyddau ar y Cyngor i geisio barn y cyhoedd ar effeithiau posib ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi a datblygu polisiau.

Yn dilyn ystyriaeth lawn o dystiolaeth yr achwynydd a'r Cyngor, casglodd y Comisiynydd nad oedd y ddogfen ymgynghori ar y strategaeth dai yn ceisio barn ar effeithiau posib ar y Gymraeg. Dyfarniad y Comisiynydd felly yw bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r safon berthnasol ar y sail nad oeddent wedi ceisio barn ynghylch effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi yn cael ar gyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o fewn y ddogfen ymgynghori.

## 9 Cadw cofnod ynghylch penderfyniadau polisi

- 9.1 Mae Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 y Comisiynydd yn nodi, o ganlyniad i'r safon sy'n ymwneud â chadw cofnod o'r camau y mae corff wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi, disgwylir i gorff allu dangos digon o dystiolaeth eu bod wedi ystyried effeithiau penderfyniadau polisi yn unol â'r safonau llunio polisi er mwyn gallu diwallu'r gofynion. Gall hynny ddigwydd drwy gyfryngau gwahanol megis drwy drafodaethau mewn cyfarfodydd, asesiad ysgrifenedig neu drwy gomisiynu gwaith ymchwil.
- 9.2 Rhaid i gorff gadw cofnod o'r camau y mae wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi y mae o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy. Yng nghyd-destun y safon hon, gall y cofnodion hynny gynnwys y canlynol:
- o copïau o asesiadau a wnaethpwyd gan y corff wrth ystyried effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg
  - o copïau o gofnodion o gyfarfodydd a gynhaliwyd i drafod effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg
  - o copïau o gylch gorchwyl gwaith ymchwil sy'n dangos bod angen i'r ymchwil ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi ar y Gymraeg.
- 9.3 Yn gyffredinol, gallai'r cofnod uchod adlewyrchu natur ddibynadwy a chyfoes y dystiolaeth y mae'n ei defnyddio.



## 10 Atodiad 1: safonau perthnasol<sup>11</sup>

Rhif y safon (rheoliadau)	Geiriad y safon
88(1), 84(2), 83(4), 85(5), 94(6), 69(7)	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
89(1), 85(2), 84(4), 86(5), 95(6), 70(7)	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
90(1), 86(2), 85(4), 87(5), 96(6), 71(7)	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
91(1), 87(2), 86(4), 88(5), 97(6), 72(7)	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>
92(1), 88(2), 87(4), 89(5), 98(6), 73(7)	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p>

<sup>11</sup> [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 1\) 2015](#); [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 2\) 2016](#); [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 4\) 2016](#); [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 5\) 2016](#); [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 6\) 2017](#); [Rheoliadau Safonau'r Gymraeg \(Rhif 7\) 2018](#)

	(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
93(1), 89(2), 88(4), 90(5), 99(6), 74(7)	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>

## 11 Atodiad 2: dehongliadau'r setiau gwahanol o Reoliadau Safonau'r Gymraeg o 'benderfyniad polisi'

<p><b>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015</b></p>	<p>Unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) cynnwys deddfwriaeth;</li> <li>(b) arfer pwerau statudol;</li> <li>(c) cynnwys datganiadau polisi;</li> <li>(ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;</li> <li>(d) strwythurau mewnol.</li> </ul>
<p><b>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016</b></p>	<p>Unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) cynnwys deddfwriaeth;</li> <li>(b) arfer pwerau statudol;</li> <li>(c) cynnwys datganiadau polisi;</li> <li>(ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;</li> <li>(d) strwythurau mewnol a lleoliadau swyddfa;</li> <li>(dd) recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr.</li> </ul>
<p><b>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016</b></p>	<p>Unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) cynnwys deddfwriaeth;</li> <li>(b) arfer pwerau statudol;</li> <li>(c) cynnwys datganiadau polisi;</li> <li>(ch) strategaethau neu gynlluniau strategol;</li> <li>(d) strwythurau mewnol a lleoliadau swyddfa.</li> </ul>
<p><b>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017</b></p>	<p>Unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, i'r graddau y mae'r penderfyniad yn ymwneud â'r canlynol—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) derbyn a dethol myfyrwyr;</li> <li>(b) gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff;</li> <li>(c) lles myfyrwyr;</li> <li>(ch) cwynion;</li> <li>(d) achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr;</li> <li>(dd) gwasanaeth gyrfaoedd;</li> <li>(e) mewnrwyd i fyfyrwyr, gwefannau rhith-ddysgu a</li> </ul>

	<p>gwefannau porth dysgu;</p> <p>(f) seremonïau graddio a gwobrwyo;</p> <p>(ff) asesu neu arholi myfyriwr;</p> <p>(g) dyfarnu grantiau a darparu cymorth ariannol;</p> <p>(ng) darlithoedd cyhoeddus;</p> <p>(h) cyfleoedd dysgu;</p> <p>(i) cyrsiau;</p> <p>(j) arwyddion ar adeiladau'r corff;</p> <p>(l) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau;</p> <p>(ll) dyrannu tiwtor personol;</p> <p>(m) galwadau i brif rif (neu rifau) ffôn, rhifau llinell gymorth, rhifau canolfan alwadau a systemau ffôn wedi eu hawtomeiddio;</p> <p>ac mae'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—</p> <p>(i) cynnwys deddfwriaeth;</p> <p>(ii) arfer pwerau statudol;</p> <p>(iii) cynnwys datganiadau polisi;</p> <p>(iv) strategaethau neu gynlluniau strategol;</p> <p>(v) strwythurau mewnol;</p> <p>(vi) lleoliadau swyddfeydd ac adeiladau;</p> <p>(vii) recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr.</p>
<p><b>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018</b></p>	<p>Unrhyw benderfyniad a wneir gan gorff sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau neu gynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall, ac mae hynny'n cynnwys, ymysg pethau eraill (ac fel y bo'n briodol i'r corff), penderfyniadau ynghylch—</p> <p>(a) arfer pwerau statudol;</p> <p>(b) cynnwys datganiadau polisi;</p> <p>(c) strategaethau neu gynlluniau strategol;</p> <p>(ch) strwythurau mewnol a lleoliadau mangreoedd; neu</p> <p>(d) recriwtio neu ddefnyddio gwirfoddolwyr.</p>

## 12 Atodiad 3: Ffynonellau data iaith Gymraeg

### 1. [Cyfrifiad 2011](#)

Y brif ffynhonnell wybodaeth ar nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ddeall, darllen ac ysgrifennu'r Gymraeg. Gan ei fod yn gyfrifiad, mae'r data ar gael ar gyfer gwahanol is-grwpiau ac ar gyfer ardaloedd bach.

### 2. [Arolwg defnydd iaith: 2013 i 2015](#)

Gwybodaeth fanylach am ruglder siaradwyr Cymraeg, a'u defnydd o'r Gymraeg mewn ystod o leoliadau. Cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith Cymraeg diweddaraf yn 2013-15.

### 3. [Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012-2015: Adroddiad 5-mllynedd Comisiynydd y Gymraeg](#)

Yn yr adroddiad hwn cynigir crynodeb o'r agweddau hynny sy'n ymddangos fwyaf arwyddocaol heddiw. Mae hynny'n cynnwys crynodeb o gyd-destun y Gymraeg yn 2015; dadansoddiad o sgiliau Cymraeg poblogaeth Cymru ar sail canlyniadau Cyfrifiad 2011 y Swyddfa Ystadegau Gwladol; dadansoddiad o lwyddiant ymdrechion i greu siaradwyr Cymraeg newydd; a dadansoddiad o'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg mewn rhai cyd-destunau penodol.

### 4. [Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth](#)

Mae'r arolwg hwn yn casglu gwybodaeth ar allu pobl yn y Gymraeg a pha mor aml y maent yn ei siarad. Cyhoeddir y canlyniadau bob chwarter (ers 2004) ac yn hanesyddol maent yn uwch na'r rhai a gynhyrchwyd gan y Cyfrifiad.

### 5. [Adroddiadau sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg](#)

Mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi adroddiad sicrwydd bob blwyddyn, er mwyn dangos sut mae sefydliadau'n perfformio a beth yw profiadau defnyddwyr. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys canlyniadau gwaith arolygu, sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymwneud cyffredinol â sefydliadau.

### 6. [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#)

Arolwg blynyddol sy'n casglu gwybodaeth am allu siarad Cymraeg oedolion 16 oed neu'n hŷn. Mae'r arolwg hwn yn gallu croes-ddadansoddi yn ôl nifer o bynciau eraill ac mae'n cynnwys cwestiynau ychwanegol am yr iaith mewn rhai blynyddoedd arolwg. Mae amcangyfrifon siaradwyr yn uwch na'r rhai a gynhyrchir gan y Cyfrifiad.

### 7. [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Adroddiad blynyddol 2017-18](#)

Er mwyn cyflawni gofynion Deddf Llywodraeth Cymru 2006, lanswyd Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr ym mis Gorffennaf 2017, wedi i'r strategaeth flaenorol dynnu i'w therfyn. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gyhoeddi adroddiad blynyddol i fonitro cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg. Gyda golwg ar y maes addysg yn benodol, mae'r adroddiad yn cynnwys data am gyfran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, canran y gweithgareddau addysg sy'n cael eu cynnal yn

Gymraeg neu'n ddwyieithog yn ôl y math o ddarparwr, nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ymhlith ystadegau eraill.

#### **8. Data sy'n ymwneud â'r maes lechyd a'r Gymraeg**

[Fy Iaith, Fy Iechyd: Ymholiad y Comisiynydd i'r Gymraeg mewn Gofal Sylfaenol](#)

[Gallu meddygon teulu ar yr Iaith Gymraeg fesul bwrdd iechyd lleol a blwyddyn](#)

#### **9. Data sy'n ymwneud â'r economi a'r Gymraeg**

[Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd](#)

## 13 **Atodiad 4: Adolygiad barnwrol i benderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ad-drefnu ysgolion yn ardal Pontypridd: crynodeb o'r pwyntiau allweddol sy'n deillio o ddyfarniad 24 Mehefin 2020 yr Anrhydeddus Mr Ustus Fraser**<sup>12</sup>

### **Crynodeb cefndirol**

Yn yr achos hwn, ceisiodd yr Hawlydd adolygiad barnwrol o'r penderfyniad a wnaed gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor") ar 18 Gorffennaf 2019 i weithredu cynigion sy'n ymwneud ag ad-drefnu eang o ran yr addysg gynradd, uwchradd a chweched dosbarth yn ardal Pontypridd o fewn ffin y Cyngor.

Cyhoeddwyd y cynigion mewn tri Hysbysiad Statudol. Cyfeiriwyd y broses o weithredu pedwerydd cynnig, a oedd wedi'i gynnwys o fewn pedwerydd Hysbysiad Statudol, at Weinidogion Cymru. Mae'r cynigion i gyd yn ymwneud ag ad-drefnu addysg yn ardal Pontypridd.

Ar 8 Mehefin 2020, gwnaeth y Comisiynydd gais i ymyrryd yn yr achos, i gyflwyno tystiolaeth a gwneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar yn y gwrandawriad. O ystyried y pryderon ynghylch effaith y cynigion ar addysg yn y Gymraeg, a rôl y Comisiynydd o safbwynt yr iaith Gymraeg, roedd y Llys o'r farn ei bod yn briodol y dylid caniatáu i'r Comisiynydd ymyrryd a gwneud cyflwyniadau.

Pwrpas cais y Comisiynydd i ymyrryd oedd rhoi gwybodaeth bellach i'r llys am yr hyn a arweiniodd at baratoi ei adroddiad ymchwiliad terfynol i'r modd yr oedd y Cyngor wedi ymdrin â'r cynigion, ac ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg. Roedd y Comisiynydd wedi dod i benderfyniad arfaethedig bod y Cyngor wedi methu yng nghyd-destun rhai agweddau ar ofynion safonau 91 i 93 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Safonau 2015"). Dadl yr Hawlydd oedd y dylai'r penderfyniad arfaethedig hwn arwain at y Llys yn dod i'r casgliad bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion iaith Gymraeg a osodwyd gan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 ("Cod 2013"). Roedd y Cyngor yn anghytuno â dadl yr Hawlydd. Cyfeiriwyd at yr her hon gan y Barnwr fel 'the Welsh Language Ground' ("y Maes Cymraeg").

### **Y Maes Cymraeg**

Dadleuodd yr Hawlydd fod y Cyngor wedi methu ag ystyried ffactor penodol ar gyfer cynigion i ad-drefnu ysgolion uwchradd neu gael gwared ar chweched dosbarth, sef sut y gallai'r cynigion hynny effeithio ar gynaliadwyedd neu wella darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith rhanbarthol 14-19 oed a'r ardal ehangach, a hyrwyddo mynediad at argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg o fewn addysg ôl-16.

### **Dewis**

Ystyriodd y Barnwr ei bod yn ymhlyg y dylai plant (a rhieni plant) yng Nghymru allu cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg os taw dyna yw eu dewis.

### **Cynaliadwyedd**

---

<sup>12</sup> [Copi o ddyfarniad llawn yr Anrhydeddus Mr Ustus Fraser](#)

Mae paragraff 1.9 o God 2013 yn datgan y dylai'r rhai sy'n ad-drefnu ysgolion ystyried y canlynol :

*"Sut y gallai'r cynigion effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y rhwydwaith 14-19 lleol a'r ardal ehangach, neu'r gwaith i'w gwella, a hyrwyddo mynediad i'r cyrsiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael mewn addysg ôl-16..."*

### Safonau cyfwerth

Ymhellach, mae paragraff 1.4 o God 2013 yn datgan:

*"Ym mhob achos, **rhaid** i ddisgyblion presennol mewn ysgol lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei lleihau neu ei dileu allu parhau i dderbyn addysg sy'n darparu o leiaf yr un safonau a chyfleoedd i gamu ymlaen yn eu cyfrwng iaith presennol. Efallai y bydd angen gwneud trefniadau pontio penodol er mwyn cyflawni hyn.*

*Pan fydd cynigion yn effeithio ar ysgolion lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu (ar gyfer pynciau heblaw Cymraeg) drwy'r amser neu beth o'r amser, **dylai** awdurdodau lleol gynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg."*

(pwyslais wedi'i ychwanegu)

Dywedodd y Barnwr mai canllaw cyfarwyddol ('directory guidance') yn unig yw'r ail baragraff, y gellir gwyrho oddi wrtho lle mae gan gorff perthnasol sail briodol dros wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r paragraff cyntaf yn defnyddio "rhaid", sy'n orfodol. Mae dechrau'r paragraff hwnnw hefyd yn defnyddio'r ymadrodd "ym mhob achos". Mae hyn yn berthnasol lle mae "darpariaeth yn cael ei lleihau neu ei dileu", ac roedd y Barnwr o'r farn bod hwn yn ofyniad gorfodol a oedd wedi'i eirio'n llym.

Felly, ym mhob achos, mae'n rhaid i ddisgyblion allu parhau i dderbyn addysg gydag o leiaf safonau a chyfleoedd cyfwerth yn eu dewis iaith. Mae hyn yn orfodol. Ymhellach, os yw cynigion yn effeithio ar ysgolion sy'n ysgolion cyfrwng Cymraeg, y canllaw cyfarwyddol yw y dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylid ei wneud oni bai bod rheswm da dros beidio â'i wneud. Roedd y Cyngor wedi cwblhau Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg a oedd wedi'i gynnwys yn ei ddogfennaeth ymgynghori.

### Penderfyniad polisi

Ystyriodd y Barnwr sut y gallai cyrff cyhoeddus gael eu dal gan y Safonau Lluio Polisi sy'n cynnwys safonau 91 i 93. Mae penderfyniad polisi, sef adran 29(6) o Fesur y Gymraeg, yn golygu unrhyw benderfyniad a wneir gan sefydliad ynghylch arfer ei swyddogaethau, neu ynghylch cynnal ei fusnes neu ymgymeriad arall. Mae'r Safonau Lluio Polisi yn darparu gofynion ar gyfer ystyried ac addasu effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

### Arfer gwael yn y gorffennol

Nid yw pob corff cyhoeddus yn cydnabod pan gânt eu dal gan y Safonau Lluio Polisi neu'r drefn Safonau yn gyffredinol. Gwnaeth y Comisiynydd gadarnhau yn ei dystiolaeth gerbron y Llys, "*Mae'r safonau wedi'u cynllunio i sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gan sefydliad yn cyfrannu at yr amcanion strategol o*



*gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg*".

Er mwyn cefnogi ei ddadl, cyfeiriodd y Comisiynydd at yr adroddiad a gyhoeddwyd gan ei Swyddfa yn 2018 o'r enw "Mesur o Lwyddiant: Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-2018"<sup>13</sup>. Nododd yr adroddiad hwnnw mai ychydig iawn o wybodaeth a ddarparwyd gan sefydliadau yn dangos sut y gwnaethant gasglu barn mewn perthynas â'r effeithiau y gallai penderfyniadau eu cael ar y Gymraeg wrth gynnal ymgynghoriadau. Mewn nifer o ymchwiliadau, gwnaeth y Comisiynydd ganfod yn flaenorol bod awdurdod lleol (er enghraifft) wedi methu ag ystyried effaith polisi newydd (a oedd yn destun ymgynghoriad) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Methodd awdurdodau lleol hefyd â cheisio barn ar effeithiau eu penderfyniadau ar y Gymraeg, ac roeddent wedi methu ag ystyried a oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ar adegau, roedd awdurdodau lleol hefyd wedi methu â gofyn i ymgynghoreion sut y gallent wneud y penderfyniad fel ei fod yn cael effaith fwy positif, neu llai niweidiol, ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Arweiniodd hyn at y Comisiynydd yn cymryd camau gorfodi.

### Safonau'r Gymraeg v Cod 2013

Derbyniodd y Barnwr sylw'r Comisiynydd mewn tystiolaeth bod Safonau 2015 a Chod 2013 yn gyfundrefnau statudol gwahanol a dim ond cydymffurfiaeth â Chod 2013 oedd i'w graffu gan y Llys (o ystyried nad oedd penderfyniad arfaethedig y Comisiynydd wedi'i gwblhau ac y gallai Tribiwnlys y Gymraeg fod yn craffu arno maes o law yn hytrach na'r Llys).

Nid oedd y Cyngor yn derbyn ei fod wedi methu â chydymffurfio â Safonau 2015, na pharagraff 1.4 neu 1.9 o God 2013. Fodd bynnag, roedd y Cyngor yn cydnabod yn ei dystiolaeth gerbron y Llys fod newidiadau i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn gallu cael effaith ar y niferoedd sy'n manteisio ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Roedd y Barnwr yn ystyried ei fod yn eglur ac amlwg bod newidiadau i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn anochel yn cael effaith ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Y nifer llai o ddisgyblion sy'n gallu manteisio ar addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, y nifer llai sy'n debygol wedyn o fynychu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Roedd y Barnwr yn ystyried bod y Cyngor wedi penderfynu nad oedd unrhyw ad-drefnu addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddigwydd, ac felly taw dyna ddiwedd unrhyw ystyriaeth ynghylch effaith *unrhyw un* o'i gynigion ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ymhellach, nododd y Barnwr fod y rheiny o'r Cyngor oedd yn gysylltiedig â'r mater wedi methu ag ystyried sut oedd y penderfyniadau yr oeddent yn eu gwneud naill ai'n cyfrannu at yr amcanion strategol o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a/neu i ba raddau nad oeddent yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd y Barnwr o'r farn bod dogfen ymgynghori'r Cyngor a oedd yn nodi manteision ac anfanteision yr opsiynau amgen a ystyriwyd yn gyfyngedig o ran manylder. Hefyd,

<sup>13</sup> [Mesur o Lwyddiant: Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-18](#)

nid oedd yn cynnwys math o ddadansoddiad na sail resymegol ac roedd cynnwys cyfyngedig yn yr Asesiad Effaith Iaith Gymraeg o ran effaith y cynigion ar yr iaith Gymraeg.

### **Casgliad**

Canfu'r Barnwr fod y Cyngor wedi torri paragraff 1.9 o'r Cod oherwydd iddo fethu ag ystyried sut y byddai cau dwy ysgol, a sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle sy'n bodoli eisoes yn effeithio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol, a sut y byddai'r effaith ar addysg gynradd cyfrwng Cymraeg hefyd yn effeithio ar addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg i'r rheiny yn y rhwydwaith 14-19 lleol. Daeth y Barnwr i'r casgliad, er i'r Cyngor gwblhau Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, ei fod wedi methu ag asesu effaith y cynigion ar y Gymraeg mewn unrhyw ffordd ystyrlon.

Yn unol â hynny, llwyddodd yr Hawlydd yn yr her ar y Gymraeg (h.y. the Welsh Language Ground) a diddymodd y barnwr y pedwar cynnig i ad-drefnu ysgolion cysylltiedig a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ar 18 Gorffennaf 2019.



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

0345 6033 221

[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)

[@ComyGymraeg](https://www.facebook.com/ComyGymraeg)

[comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)